

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Rhwydwaith Arddangos

Tyfu cnwd protein yn
fferm Pantyderi

Canolfan Gyfnewid Gwybodaeth

Arallgyfeirio rheolaeth amaethyddol
i gynyddu'r carbon sy'n cael ei storio



Cronfa Amgwyddol Ewrop ar
Gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Budoeddol mewn Ardalau Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Ulywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIFYN 35 - Medi/Hydref 2021 | www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Canolfan Gyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio

Mae'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth (KE Hub) wedi ei lleoli yn IBERS ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae ein cydweithwyr yno yn chwarae rôl bwysig wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf o ymchwil wyddonol i ffermwyr a choedwigwyr.

Arallgyfeirio rheolaeth amaethyddol i gynyddu'r carbon sy'n cael ei storio

Mae llawer o gyfleoedd ar gyfer arallgyfeirio mewn busnesau amaethyddol ac wrth i ni gynyddu ein pwyslais ar leihau ein hól troed carbon mae dewisiadau posibl i arallgyfeirio i ffermwyr sy'n ymwneud â storio carbon, dal carbon a gwrthbwyso carbon. Yma mae Dr William Stiles, o'r Ganolfan Gyfnewid Gwybodaeth yn IBERS, Prifysgol Aberystwyth yn cyflwyno rhai o'r dewisiadau.

Mae angen newidiadau mawr yn yr arferion rheoli tir presennol er mwyn bodloni'r disgwyliad am 'sero-net', lle mae cydbwysedd rhwng yr allyriadau nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir a faint sy'n cael ei dynnu o'r atmosffer. Mae'n debygol y bydd

hyn yn cynnwys mwy o dyfu biomas, trwy gynnwys mwy o blanhigion fel coed yn y dirwedd amaethyddol a thrwy welliannau i'r ffordd y mae pridd yn cael ei reoli i sicrhau'r potensial mwyaf ar gyfer storio carbon (neu o leiaf gadw'r carbon sydd yn y pridd ar hyn o bryd).

Dengys yr amcangyfrifon o'r graddau y bydd yn rhaid i dirwedd y Deyrnas Unedig newid er mwyn gallu ymdopi ag amcanion newid hinsawdd y bydd angen i tua 22% o'r tir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth ar hyn o bryd gael ei ryddhau ar gyfer defnyddiau eraill, fel storio carbon, adfer cynefin a chynhyrchu bio-ynni.





Amcangyfrifir bod angen i'r nifer o goed sy'n cael eu plannu yn y Deyrnas Unedig gynyddu i ddeg mil ar hugain o hectarau y flwyddyn rhwng heddiw a 2050 (sy'n cyfateb i 90 - 120 miliwn o goed yn cael eu plannu'r flwyddyn). Fel rhan o hyn bydd angen i blannu coed ddigwydd ar dir â'r glaswelltir hefyd, a bydd angen i wrychoedd gynyddu i 181,000 hectar erbyn 2050. Yn ychwanegol, bydd angen i feithrin cynyddu biomas, ar gyfer cynhyrchu bio-ynni, gynyddu i 23,000 hectar y flwyddyn erbyn canol y 2020au. Gallai cynhyrchu tanwydd yn y modd hwn helpu i leihau'r ddibyniaeth ar danwyddau ffosil, gan gynyddu'r potensial ar gyfer dal a storio carbon mewn planhigion. Yn ychwanegol, mae'r dull hwn yn caniatáu i CO₂ o'r atmosffer gael ei ddal, y gellir wedyn ei gasglu trwy ddefnyddio technolegau dal carbon o wneuthuriad dyn yn ystod y broses losgi. Yn y modd hwn, mae'r dull hwn yn wahanol i ddulliau eraill sy'n ymwneud â natur, gan y gall y carbon gael ei dynnu o'r cylched carbon yn effeithiol, nad yw'n wir o angenrheidrwydd yn y tymor hir gydag ymyraethau eraill.

Roedd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ffermio Cynaliadwy a'n Tir a gyhoeddwyd yn 2019 yn gofyn am farn am y cynigion ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy i Gymru. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig system newydd o gefnogaeth ariannol i ffermwyr, wedi ei chysylltu â chyflawni deilliannau Rheoli Tir Cynaliadwy. Roedd y rhain yn cynnwys gwell ansawdd aer a dŵr, ac ecosystemau mwy gwydn, ochr yn ochr â pharhau i gynhyrchu bwyd diogel, o safon uchel, cynaliadwy. Gall hyn gynnig cyfle i ffermwyr a rheolwyr tir eraill newid y pwyslais presennol a symud tuag at 'ffermio carbon', gan ddefnyddio rhai o'r dulliau uchod. Mae rhoi gwerth ar gyfalaf naturiol, y nodweddion natur y mae'r boblogaeth yn cael budd neu werth ohonynt, yn system o asesu gwerth rheoli tir sy'n cynyddu. Wrth i bwyslais y gefnogaeth symud tuag at gyflenwi nwyddau cyhoeddus a rheoli cyfalaf naturiol, gall newid y rheolaeth ar y fferm i gynyddu'r ffactorau fel storio carbon a'i ddal sy'n cael eu darparu fod yn gam ariannol call.



EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success

CADW UN CAM AR Y BLAEN: TACLO IECHYD TRAED MEWN GWARTHEG LLAETH

Nid oes un dull 'addas i bawb' pan ddaw'n fater o ymdrin â chloffni ar y fferm, ond yn ogystal â chydabod bod arnom angen dull unigryw i bob buches unigol, mae hefyd yn bwysig derbyn hefyd na fydd pob ffermwr am dderbyn cyngor yn yr un ffordd. Gan fod cloffni yn bryder mor bwysig yn y diwydiant oherwydd ei effaith ar les, cynhyrchiant ac amgylffrediad y cyhoedd, mae dod o hyd i ffyrdd gwahanol o rannu syniadau ar sut i ymdrin â'r broblem yn hanfodol.

Mae grŵp o 24 o ffermwyr o dde ddwyrain Cymru yn cymryd rhan mewn prosiect EIP Cymru dwy flynedd i asesu sut y mae dau ddull newydd o gael cyngor yn gallu gwneud gwahaniaeth ar eu ffermydd. Gan weithio gyda'u milfeddygon unigol a'r ymgynghorydd milfeddygol Sara Pedersen o Farm Dynamics, maent oll wedi dewis eu hoff ddull o gyfnwidd gwybodaeth. Er mwyn asesu sut y mae hyn yn dylanwadu ar eu gwybodaeth, ymddygiad ac



Mae Grwpiau Gweithredu dan Arweiniad Ffermwyr yn canolbwyntio ar ddysgu rhwng cymheiriaid a rhannu syniadau ac atebion.

yn y pen draw ar gloffni yn eu buchesi, bydd sgôr yn cael ei rhoi i symudedd buchesi'r holl ffermydd sy'n cymryd rhan ar y dechrau, ar ganol ac ar ddiwedd y prosiect yn ogystal â chymryd rhan mewn arolwg cyn ac ar ôl y prosiect.

Dewisodd y ffermwyr sy'n cymryd rhan fod yn rhan o un o bedwar grŵp gwahanol:

Grŵp 1: Mae hwn yn grŵp rheoli a fydd yn cael eu monitro trwy gydol y prosiect trwy sgorio symudedd ond ni fyddant yn cael unrhyw fewnbwn ychwanegol.

Grŵp 2: Bydd y grŵp hwn yn cael cyngor trwy raglen Healthy Feet Lite (HFLite) yr AHDB sy'n golygu gweithio gyda'u milfeddyg eu hunain (Mentor Symudedd) i bennu'r prif risgiau o ran cloffni ar eu fferm ac yna cytuno ar gynllun gweithredu penodol iddyn nhw.

Grŵp 3: Yn ystod y prosiect bydd y ffermwyr yn y grŵp hwn yn mynd i 12 o gyfarfodydd Grŵp Gweithredu dan Arweiniad Ffermwyr gyda phob aelod o'r grŵp yn cynnal dau gyfarfod. Bydd hwylysydd yn bresennol ym mhob cyfarfod ond gan mai dysgu cymheiriaid yw'r pwyslais ni roddir unrhyw gyngor. Bydd pob cyfarfod yn edrych ar lwyddiannau a heriau iechyd traed ar y fferm sy'n cynnal y cyfarfod cyn i'r grŵp awgrymu cynllun gweithredu ac i'r ffermwr ei dderbyn.

Grŵp 4: Mae'r grŵp hwn yn gyfuniad o Grwpiau 2 a 3 ac felly bydd ffermwyr yn y grŵp hwn yn dilyn HFLite gyda'u milfeddyg ac yn mynd i gyfarfodydd Grŵp Gweithredu dan Arweiniad Ffermwyr.



Mae Rhaglen Healthy Feet Lite yr AHDB yn galluogi'r ffermwyr i weithio gyda'u milfeddyg (Mentor Symudedd) i greu cynllun gweithredu penodol ar gyfer y fferm.

Mae'r prosiect yn rhedeg ers tro erbyn hyn gyda'r cynlluniau gweithredu HFLite ar waith a'r cyfarfodydd ar ffermydd yn digwydd bob 4 i 6 wythnos. Bydd y sgoriau symudedd hanner ffordd trwy'r prosiect yn cael eu cymryd yn hwyrach eleni a fydd yn rhoi'r syniad cyntaf o effaith y prosiect.

"Nid ydym wedi mynd ymhell i'r prosiect, ond, rydym eisoes yn gweld bod rhai ffermydd yn gweld gwelliannau anferth yn iechyd traed y fuches trwy dderbyn y cyngor y maent wedi ei gael. I mi, yr agwedd fwyaf diddorol cyn belled yw gweld sut y gall rhannu profiadau a datrysiadau yn ystod y Grwpiau Gweithredu dan Arweiniad Ffermwyr wirioneddol helpu i oresgyn rhwystrau oedd yn bodoli o'r blaen o ran taclo cloffni. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at gael gweld beth fydd yn digwydd dros y 18 mis nesaf," meddai Sara Pederson.

**Am ragor o wybodaeth am y prosiect EIP hwn, ewch i wefan Cyswllt Ffermio:
llyw.cymru/cyswlltffermio**

Pantyderi - Safle Arddangos

Safle Arddangos: Pantyderi

Swyddog Technegol: Dr Delana Davies

Teitl y Prosiect: Tyfu cnwd protein

Cyflwyniad i'r prosiect:

Mae tyfu grawn ym Mhantyderi yn darparu digon o egni startsh i fagu a phesgi'r 400 o wartheg ar y safle yn flynyddol, ond mae dwysfwyd 36% protein yn cael ei brynu i mewn i gau'r bwch o ran protein yn y dogn. Roedd y gwaith prosiect yn y flwyddyn gyntaf yn canolbwyntio ar sicrhau bod lefel y protein yn y silwair ar ei uchaf trwy dorri silwair ynghynt o wndwn wedi ei ail-hadu ac ymgorffori meillion yn y gymysgedd laswellt.

Roedd y dognau a gyfrifwyd ar gyfer y gwartheg yng ngaeaf 2020-21 yn dal i ddangos, fodd bynnag, bod angen cynnwys dwysfwyd protein o 1.0 i 1.5kg y pen y dydd i ddod â lefel protein y dogn yn gyffredinol i fyny i'r 15-16% sy'n angenrheidiol i gynnal y targedau tyfu o 1.3kg y pen y dydd ac yn uwch na hynny. Roedd y dwysfwyd a brynwyd i mewn yn seiliedig ar flawd hadau rêp a grawn bragu india corn.

Gan fod Pantyderi yn tyfu 60 hectar (ha) o rawn yn flynyddol, byddai cyflwyno cnwd ffabys fel ffa maes (*Vicia faba*) yn gweithio'n dda yn y gylchred, gan ei fod yn sefydlogi nitrogen sydd o fudd i'r cnwd grawn fydd yn ei ddilyn. Nid oes angen gwrtaith nitrogen i dyfu'r cnwd, a gall datblygiad gwreiddiau hir y ffa fod o fudd i strwythur y pridd.

O ran maeth, gall ffa gystadlu'n ffafriol ag unrhyw ffynonellau protein gaiff eu mewnforio; mae ei nodweddion o ran protein ac egni (29% protein ac 13.3MJ/kg ME) yn debyg i flawd bragu india corn ac, ar gymhariaeth pris priodol, gall gystadlu'n

ffafriol â soia. Gall y ffa hefyd gael eu porthi i gilgnowyr, moch a dofednod.

Yn hanesyddol, mae'r amgyffrediad o amrywiaeth yn y cynnyrch, y datblygu cyfyngedig ar fathau a'r wybodaeth gyfyngedig am agronomeg benodol (gan gynnwys rheoli afiechyd) wedi codi problemau oedd angen eu trin, ac mae hyn yn cael ei gyfuno â llai o elw mewn cymhariaeth â chnydau tir â'r eraill. Ond, mae'r cyfle i ddisodli soia a blawd bragu india corn wedi ei fewnforio mewn porthiant da byw yn hybu ffa maes wedi eu tyfu gartref fel dewis cynaliadwy iawn y gellir ei olrhain yn llawn a all gynyddu gwynnwch cynhyrchu cig eidion a lleihau ei ôl troed carbon.

Nod y prosiect:

Nod y prosiect yw archwilio tyfu ffa fel ffynhonnell protein crynodedig a fydd yn gweithio'n hwylus gyda'r system gynhyrchu bresennol a'r cyfleusterau yn fferm Pantyderi.

Gall cynaeafu cnwd ffa sych fod yn anodd mewn tywydd anffafriol, felly er mwyn hwyluso cynhaeaf cynharach, bydd y ffa yn cael eu cynaeafu ar lefel lleithder uwch (25-45%), eu gyrru trwy beiriant crimpio a'u trin â chadwolyn. Bydd hyn yn golygu y gellir eu storio mewn clamp â haenen blastig, y tu allan os bydd angen, gyda'r barlys ar gyfer porthi'r gwartheg biff eisoes yn cael ei gynaeafu a'i storio yn y modd hwn. Mae i'r system hon hefyd y fantais bod y cynnyrch yn barod i'w ddefnyddio heb ei brosesu ymhellach ar yr amser porthi gofynnol. Trwy gynaeafu 3-6 wythnos yn gynharach mae'r cyfle i drin yn yr hydref hefyd yn fwy i hau cnwd grawn gaeaf.

Ond, un problem â ffa wedi eu crimpio yw y gall fod yn anodd cadw aer allan a chreu'r



Ffigwr 1. Pys a ffa yn cael eu tyfu gyda'i gilydd (19 Gorffennaf 2021)


amodau clamp anaerobig gan fod y ffa yn ddarnau mawr. Un ffordd o osgoi'r broblem hon a awgrymwyd gan y PGRO (Sefydliad Proseswyr a Thyfwyr) yw trwy dyfu ffa a phys gyda'i gilydd. Mae pys hefyd yn rhoi gorchudd cynharach ar y ddaear na'r ffa, sy'n helpu i dagu chwyn. Mae eu harferion tyfu hefyd yn cyd-fynd â'i gilydd yn dda gyda'r ffa yn cynnig sgaffaldiau cryf sy'n helpu i gadw'r pys ar eu traed yn hwyrach yn y tymor; maent hefyd yn cael budd o'r un dull o ran agronomeg. Trwy dyfu dau gnwd gyda'i gilydd mae'r gwahaniaethau o ran mathau o ran amser hyd aeddfedu yn dueddol o gyd-daro.

Dangosodd treialon hefyd bod cnydau cymysg yn gyson yn cynhyrchu mwy na chnydau a dyfir yn unigol, o tua 3.5-3.7 tonnell/ha ar gyfer naill ai cnydau unigol i tua 5t/ha pan fyddant yn cael eu tyfu gyda'i gilydd.

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn, ewch i wefan Cyswllt Ffermio: llyw.cymru/cyswlltffermioeinffermydd

Driliwyd cae 8ha sy'n draenio'n dda ar 22 Ebrill ar ddau dro gyda chyfradd hadau lawn o ffa Lynx ar gyfradd o 308kg/ha a 75mm o ran dyfnder ac yna pys Karpate ar gyfradd o 225 kg/ha a dyfnder o 50mm. Dangosodd y cyfri planhigion ar 20 Mai bod y targed wedi ei gyrraedd o ran 126 planhigyn/metr sgwâr.

Bydd yr holl gostau tyfu a phrosesu yn cael eu cofnodi a bydd y costau o'r hadau i gegau yn cael ei gyfrifo i bob tunnell. Bydd y cnwd yn cael ei gynnwys mewn dognau bîff ar gyfer gaeaf 2021-22, gan lunio dognau gyda chynnwys startsh a phrotein cyfartal i'r ddau aeaf blaenorol, gyda'r cynnydd pwysau byw dyddiol yn cael ei fonitro.



Y diweddaraaf am LoRaWAN – a beth sydd nesaf?

Mae technoleg Rhynggrwyd y Pethau (IoT) ac yn benodol Rhwydwaith Ardal Eang Pŵer Isel (LoRaWAN) yn ehangu yn gyflym yng Nghymru, gyda synwryddion yn gynyddol yn cael eu mabwysiadu yn y sector amaethyddol fel dull o gasglu data i roi atebion i wella effeithlonrwydd ffermydd.

Mae gan bob safle arddangos yn rhwydwaith arddangos Cyswllt Ffermio borth LoRaWAN wedi ei osod ar y fferm, yn ogystal â dau synhwyrdd; synhwyrdd dan do (mewn sied yn nodweddiadol) sy'n casglu data tymheredd, lleithder a golau, a synhwyrdd awyr agored sy'n casglu data am dymheredd y pridd a'r aer. Mae'r safleoedd arddangos llaeth hefyd yn treialu synhwyrdd lefel hylif (ffigwr 1) sy'n mesur dyfnder hylif (h.y. mewn storfeydd slyri a thanciau dŵr). Mae'r holl ddata o'r synwryddion yn cael ei anfon i fyrddau rheoli, lle gall y wybodaeth gael ei dadansoddi a helpu i fod yn sail i lunio penderfyniadau.

Ar hyn o bryd mae dau safle arddangos, Erw Fawr a Pentre yn archwilio a oes perthynas yn bodoli rhwng tymheredd y pridd a thyfiant glaswellt, gan ddefnyddio'r data a gesglir o'r synhwyrdd yn ffigwr 2.



Ffigwr 1: Synhwyrdd dyfnder hylif wedi ei osod ar danc.

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn, ewch i wefan Cyswllt Ffermio: llyw.cymru/cyswlltffermioeinferrydd


Mae safleoedd eraill wedi ymgorffori synwryddion LoRaWAN ychwanegol yn eu prosiectau. Defnyddiodd safle arddangos Pantyderi synwryddion nitrad yn y pridd yn y caeau tir â'r ac mae safle arddangos Wern wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'w sied ddofednod o ganlyniad i osod synwryddion amgylcheddol. Mae safle arddangos Moelogan Fawr yn treialu synhwyrdd agor:cau i roi gwybodaeth am statws giât ar y fferm. Mae nifer o brosiectau ar fin digwydd hefyd, un ohonynt yn dreial yn defnyddio drôn awtomataidd i fesur y cynnyrch glaswellt ar safle arddangos Pendre.

Mae Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) yng Nghymru yn treialu synwryddion LoRaWAN eraill. Mae un prosiect yn canolbwyntio ar swyddogaeth technoleg Rhynggrwyd y Pethau i wella effeithlonrwydd chwalu slyri, ac mae'r ail brosiect yn addasu synwryddion i wella diogelwch y fferm.

Cymharol newydd o hyd yw defnyddio'r dechnoleg ar rwydwaith arddangos Cyswllt Ffermio. Er gwaethaf hynny, fel yr amlygir yma, mae'r cyfleoedd ar gyfer datblygiadau technolegol pellach a defnyddio synwryddion ar ffermydd yn anferth.



Ffigwr 2: Synhwyrdd tymheredd awyr agored deul.



Erw Fawr - Safle Arddangos

Safle Arddangos: Erw Fawr, Caergybi, Ynys Môn

Swyddog Technegol: Rhys Davies

Teitl y Prosiect: CattleEye

Gwelodd technoleg dadansoddi fideo ddatblygiadau cyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gael ei ddefnyddio yn gyson i adnabod troseddwyd neu i ddatgloi ffonau symudol. Oherwydd bodolaeth y dechnoleg hon crëwyd cyfle yn y diwydiant laeth i ffrwyno manteision llwyfan i ddysgu peiriannau a dadansoddi fideo. Gall llwyfan o'r fath ddefnyddio data gweledol i ddeall rhagor am yr anifail a all, yn ei dro, gael ei ddefnyddio i reoli iechyd anifeiliaid yn fwy effeithlon a rhoi tystiolaeth gyson am safonau lles anifeiliaid. Byddai hyn yn newid mawr o'r systemau casglu data am anifeiliaid presennol sydd naill ai yn dibynnu ar yr hyn a wêl y ffermwr a chofnodi data â llaw, neu, yn achos technoleg synwryddion y gellir ei gwisgo, fel coleri gwartheg a mesurwyr camau, sydd angen eu rhoi ar waith a'u cynnal a'u cadw â llaw.

Datblygodd CattleEye system feddalwedd yn y cwmwl i ddehongli delweddau o anifeiliaid o gamerau cylch cyfyng safonol. Yn Erw Fawr, mae wedi dechrau adnabod buchod sy'n gadael y parlwr godro yn awtomatig o'u biometreg a phatrymau lliw arnynt a chofnodi sgoriau symudedd ddwywaith y dydd (graddfa 0-3). Mae'r rhain yn cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i Ceredig, y ffermwr, trwy ap a fydd wedyn yn cymryd camau addas trwy eu trin yn gynnar. Dan arweiniad arweinydd y prosiect Yr Athro Georgios Oikonomou o

Brifysgol Lerpwl, mae'r prosiect yn gobeithio dangos y bydd dynodi ac olrhain lefelau cloffni buchod unigol ddwywaith y dydd hefyd yn ymdrin â gofynion cynyddol prosesyddion a defnyddwyr o ran cofnodi lles anifeiliaid. Bydd canlyniadau a data o'r prosiect 6 mis ar gael yn hwyrach yn y flwyddyn.

Nod y prosiect:

- Asesu'r defnydd ymarferol a pha mor gywir yw wrth adnabod y buchod
- Lleihau achosion a'r costau cysylltiedig i fuchod â sgôr o 2 a 3 dros gyfnod o 6 mis trwy drin traed yn gynharach
- Gwella'r cofnodi ar wybodaeth am les anifeiliaid



Ffigwr 1. Delwedd a gymerwyd o'r camera cylch cyfyng, a osodwyd uwch ben y gwartheg wrth iddynt adael y parlwr. Mae'r camera safonol ar gyfer y we wedi ei gysylltu â'r rhyngwrdd a bydd y fideo byw yn cael ei ddehongli gan y feddalwedd CattleEye ar y cwmwl.

Mae **Erw Fawr** yn rhan o Brosiect Porfa Cymru. Ewch i wefan Cyswllt Ffermio i weld eu cyfraddau twf diweddaraf.
llyw.cymru/cyswlltffermio



PROSIECT
PORFA CYMRU
WELSH PASTURE
PROJECT

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn, ewch i wefan Cyswllt Ffermio: llyw.cymru/cyswlltffermio



Safle Ffocws - Forest Coalpit

Safle Ffocws: Forest Coalpit

Swyddog Technegol: Dafydd Owen

Teitl y Prosiect: Cymharu bwâu moch i wella llesiant

Cyflwyniad i'r prosiect:

Gan y gall straen oerfel a gwres achosi problemau iechyd, cyfraddau tyfiant gwaeth a pherfformiad atgenhedlu gwael, mae'n sylfaenol bwysig i foch gadw yn eu parth thermal niwtral gymaint â phosibl i sicrhau eu bod yn dal i dyfu'n gyflym, ac i gadw'r biliau porthiant cyn ised â phosibl.

Ar hyn o bryd mae cynllun treialu yn cael ei gynnal ar Fferm Forest Coalpit i gymharu effeithlonrwydd y bwâu bwrw perchyll 'Aardvark' newydd y mae Kyle Holford a Lauren Smith wedi eu prynu'n ddiweddar. Mae'r bwâu plastig newydd yn sefydlog o ran UV a dylent fod nifer o raddau yn oerach yn yr haf a chynhesach yn y gaeaf mewn cymhariaeth â strwythurau bwa moch traddodiadol.

Fel rhan o'r cynllun treialu, mae tri chofnodydd tymheredd yn cael eu defnyddio i gymharu dau

fath gwahanol o fwa. Mae'r cofnodydd cyntaf wedi ei osod ar du mewn to'r 'Aardvark', mae'r ail ar baneli ochr yr hen sied/fwa dur traddodiadol, ac mae'r trydydd wedi ei osod ar bolyn ffens sy'n agos at y ddau fwa (i gofnodi'r tymheredd tu allan).


Y diweddaraf am y prosiect:

Dengys y canlyniadau yn Ffigwr 1 bod y tymheredd y tu mewn i'r 'Aardvark' yn dueddol o fod yn gynhesach yn ystod cyfnodau oer mewn cymhariaeth â'r bwa dur. Yn ystod y cyfnod oeraf, pan fydd y tymheredd tu allan yn disgyn i -2°C , mae'r bwa dur yn disgyn i 3°C , ond nid yw'r tymheredd dan y bwa plastig yn disgyn dan 6°C .


Cred Kyle Holford bod newid o'r hen fwâu dur, mwy traddodiadol at yr 'Aardvark' newydd hefyd wedi lleihau'r nifer o farwolaethau perchyll a gwellt a ddefnyddir oherwydd eu siâp crwn.

Cam nesaf y treial yw cymharu'r ddau fwa yn ystod tymheredd poethach.

Ffigwr 1. Synwryddion tymheredd (Llwyd- tymheredd y tu allan, Glas- tymheredd yr Aardvark, Oren - bwa dur traddodiadol)



Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn, ewch i wefan Cyswllt Ffermio: llyw.cymru/cyswlltffermioeinferrmydd



CERBYDAU POB TIRWEDD (ATV)

Gall troi cerbyd pob tirwedd achosi
marwolaeth neu anafiadau difrifol

ATV

Overturning an 'all terrain vehicle' can
cause death or serious injury

HYFFORDDIANT: Mae'n rhaid i bob
defnyddiwr fod yn gymwys ac wedi derbyn
hyfforddiant

HELMEDAU: Gwisgwch helmed bob amser

TEITHWYR: Peidiwch byth â chario teithwyr

PLANT: Nid oes hawl i blant dan 13
defnyddio cerbydau pob tirwedd. Dylai pobl
ifanc dan 16 ddefnyddio cerbydau pob tirwedd
(ATV) o faint addas ar ôl derbyn hyfforddiant

DIOGELWCH: Sicrhewch eich bod yn
cynnal a chadw a gwirio diogelwch y cerbyd yn
rheolaidd

LLWYTHI DIOGEL: Sicrhewch fod pob
llwyth yn ddiogel ac yn gytbwys

CADWCH AT Y LLWYBRAU

A GYNLLUNIWYD: Peidiwch â chymryd
risg ar dir anwastad neu lethrau

TRAINING: All riders must be trained
and competent

HELMETS: Always wear a helmet

PASSENGERS: Never carry passengers

CHILDREN: Children under 13 years old
are prohibited from riding ATVs. Under
16s should only use appropriate sized
ATVs after training

SAFETY CHECKS: Carry out routine,
regular maintenance and safety checks

SECURE LOADS: Ensure all loads are
secure and evenly balanced

STICK TO PLANNED ROUTES: Don't
take risks on uneven or sloping ground



Coed ar ffermydd - menter economaidd?

Geraint Jones, Swyddog Technegol Coedwigaeth, Cyswllt Ffermio

Gwelir coetir gan lawer fel dewis poblogaidd wrth ymdrin â phroblemau'n gysylltiedig â'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth. Mae eu gallu i liniaru rhai o effeithiau newid hinsawdd yn ei wneud yn ymgeisydd cryf ymhlith yr atebion ar sail natur sydd ar gael. Gallai gwobrwyo ffermwyr am yr enillion amgylcheddol ar ffurf taliad am nwyddau cyhoeddus gynnwys dewisiadau newid defnydd tir wrth gynyddu'r gorchudd o goed ar y fferm fel menter economaidd. Sut felly allwn ni ddefnyddio coed i gael elw?

Mae'r amcanion o blannu coed wedi cael eu hyrwyddo am nifer o resymau ac maent wedi bod yn dueddol o ganolbwyntio ar effeithiau penodol a hawdd eu mesur. Gwyddom y bydd coed yn cyfrannu at wella estheteg y dirwedd, cadwraeth, bioamrywiaeth, yn lliniaru'r risg o lifogydd, a'r manteision aml-swyddogaeth y bydd coed yn eu cynnig i fusnes y fferm o gysgod hyd at liniaru llygredd rhag gwasgaru a gwella lles anifeiliaid. Cyflwynir y cyfan fel rhesymau dros blannu coed ar ffermydd er lles ond yn anaml y mae'n cael ei ystyried o safbwynt y ffermwr. Wrth ystyried cost plannu rhannau o'r fferm, gall y colli tir a amgyffredir gael ei weld fel anghymhelliaid. Ond, wrth ddefnyddio rhannau penodol o'r fferm ar sail y mantra "y goeden iawn yn y lle iawn am y rheswm iawn", gall yr enillion ariannol o fanteision aml-swyddogaeth y mae coed yn eu cynnig fod yn llawer mwy na gwerth y newid yn y defnydd tir. Yr ateb felly, yw ystyried plannu coed oherwydd bod arnoch eisiau neu angen coed ar y fferm ar gyfer y cyfan neu unrhyw un o'r rhesymau uchod. Yna, rheoli'r coed hynny i gael pren ohonynt ac elw.

Ar hyn o bryd, mae prisiau coed yn dda iawn ac mae hefyd wedi agor marchnad i ffermwyr wneud arian o goed, ac er enghraifft, y cyfle i glirio lleiniau cysgodi conwydd nad ydynt yn gweithio a'u hail-ddylunio a'u hail-stocio gydag ystod ehangach o rywogaethau sy'n addas i'r diben i fodloni amcan y ffermwyr wrth ffermio ei asedau yn ogystal â'r tir.

Mae a bydd integreiddio coed i fusnes y fferm yn rhan bwysig o weithgaredd economaidd, gall rhoi hwb i gynhyrchedd ar y fferm fod yn bennaf yn ddull o gefnogi elw o ffrydiau eraill fel gwerthu cynnyrch gwlan e.e. coed tanwydd, neu i'w defnyddio fel adnodd ar y fferm ar gyfer ffensio, adeiladu neu inswleiddio er enghraifft neu hyd yn oed cynhyrchu ffrwythau. Hyd yn oed os nad yw'r coed i gael eu cynaeafu, byddant yn gweithredu fel rhan angenrheidiol o'r systemau cynhyrchu eraill ar y fferm a chynnig manteision cysylltiedig i gynhyrchu anifeiliaid a chnydau a rheoli iechyd dŵr a phridd. Hyd yn oed pan fydd ffigwr economaidd yn llai diriaethol ac wedi deillio o fanteision aml-swyddogaeth anuniongyrchol, fel ar gyfer amwynder, gall ddal i gyfrannu at yr elw. Mae'r cysyniad yma yn ymdrin ag amaeth-goedwigaeth ac fe'i gwelir fel cysyniad allweddol wrth gynyddu'r gorchudd o goed ar ffermydd fel rhan o flociau adeiladu fferm weithredol gan gynyddu gwytnwch i newid hinsawdd a chynyddu cynhyrchiant. Yn gysylltiedig â hyn mae'r farn bod gwella'r perfformiad amgylcheddol yn dda i'r fferm ac, yn ei dro, yn dda i elw a bod angen i bopeth ar y fferm gael ei reoli'n weithredol.

Yn olaf, mae allyriadau carbon yn uchel ar yr agenda a gall creu coetir newydd gyfrannu at economi carbon isel a helpu busnesau unigol



i leihau eu hól troed carbon trwy farchnata unedau carbon sydd dros ben. Mae gan ffermwyr ased gweithredol mewn coed, coetir a gwrychoedd y gellir rhoi gwerth arnynt ar gyfer darparu gwasanaeth ecosystem wrth reoli peirianwaith sy'n tynnu carbon deuocsid o'r atmosffer i storio carbon.

I gloi, mae rheoli coetir fferm fel ased gweithredol a chynyddu'r gorchudd o goed ar y fferm yn wirioneddol bositif i'r busnes a gall

agor llwybrau o ran cyfleoedd arallgyfeirio. Mae gwybod pa adnoddau pwysig sydd gennym ar ein ffermydd yn hanfodol wrth symud ymlaen. Gall Cyswllt Ffermio gefnogi ffermwyr i reoli'r adnodd yn weithredol trwy deilwrio eu harferion rheoli i ddarparu budd sylweddol i ansawdd eu cynnyrch, gyda golwg ar wella eu statws amgylcheddol ac economaidd gan hefyd fod o fudd i'r amgylchedd a chyfrannu at economi gylchol.

Taflen Wybodaeth – Storio Silwair

Cyflwynwyd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 i leihau faint o lygrwyr a gollir o amaethyddiaeth i'r amgylchedd trwy osod rheolau ar gyfer rhai arferion amaethyddol.

Cymerodd y rheoliadau le'r safonau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol (SSAFO) oedd yn bodoli ar gyfer gwneud silwair, storio elifant silwair a systemau storio silwair ar 1 Ebrill 2021, sy'n berthnasol i bob fferm. Yn ymarferol, nid yw'r gofynion wedi newid, ond maent yn awr hefyd yn ofynnol o ran traws gydymffurfio.

Parthau diogelwch silwair

- Rhaid i silwair sy'n cael ei storio mewn seilo beidio cael ei wneud na'i storio o fewn 10 metr i unrhyw gorff o ddŵr.
- Rhaid i silwair mewn byrnau fod wedi ei selio mewn pilen neu fag anhydraidd ac ni ddylai gael ei wneud, ei storio, ei agor na'i ddadlapio o fewn 10 metr i unrhyw gorff o ddŵr.
- Rhaid i silwair sy'n cael ei storio ar gae beidio cael ei wneud na'i storio o fewn 50 metr i 'gwrs cyflenwad dŵr gwarchodedig'. Rhaid i chi hefyd hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru 14 diwrnod cyn i'r safle ar gae gael ei ddefnyddio.

Rheoli elifant silwair

- Rhaid bod yn ofalus wrth gasglu a storio elifant silwair heb achosi llygredd.
- Gall elifant silwair gael ei ddefnyddio i'w borthi i dda byw neu, ar ôl ychwanegu dŵr ato, gellir ei chwalu ar dir amaethyddol fel gwrtaith. Bydd yr elifant silwair hefyd yn ddarostyngedig i'r rheoliadau ar storio a chwalu tail organig sydd â llawer o nitrogen ynddo.

Gofynion adeiladu storfeydd silwair

- Nid oes angen i chi storio *silwair* mewn byrnau (wedi ei lapio neu mewn bag) ar lawr wedi ei adeiladu'n arbennig, ond rhaid i chi sicrhau, os bydd yn cael ei gadw'n uniongyrchol ar y llawr nad yw'n colli elifant i ddŵr.
- Rhaid i chi sicrhau bod unrhyw system storio silwair yn bodloni gofynion adeiladu'r rheoliadau.
- Gall Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno rhybudd yn gofyn am weithredu i wella'r darpariaethau sy'n bodoli pan fydd yn ystyried bod risg sylweddol o lygredd.

Adeiladu neu addasu storfa silwair

- Os bydd arnoch angen adeiladu storfa neu seilo newydd, neu ehangu neu ailadeiladu storfa sy'n bodoli yn sylweddol, rhaid rhoi lleiafswm o 14 diwrnod o rybudd i Gyfoeth Naturiol Cymru yn ysgrifenedig cyn dechrau'r gwaith adeiladu.

Gellir gweld canllawiau manwl yn llyw.cymru/rheoli-tir

Taflen Wybodaeth – Gofod Storio Slyri

O 1 Awst 2024 rhaid i chi sicrhau bod eich systemau storio slyri yn bodloni gofynion Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

Gofod storio

- Rhaid i chi fod â digon o ofod storio i gadw'r slyri a gynhyrchir yn ystod y cyfnod storio a chydymffurfio â'r gofynion eraill yn y rheoliadau i beidio â chwalu slyri os oes risg sylweddol o lygru.
- Rhaid i'r storfa hefyd fod â digon o ofod ar gyfer unrhyw ddŵr glaw neu olchiadau sy'n mynd i mewn i'r storfa yn ystod y cyfnod storio.

Y cyfnod storio

- Rhaid darparu digon o le i storio am:
- 6 mis ar gyfer tail moch ac ieir (1 Hydref hyd 1 Ebrill)
- 5 mis ar gyfer pob math arall o dail a slyri (1 Hydref hyd 1 Mawrth)

Cyfrifo'r cyfaint o slyri a gynhyrchir yn ystod y cyfnod storio

- Rhaid i gyfaint y tail a gynhyrchir gan yr anifeiliaid ar y daliad gael ei gyfrifo yn unol â ffigyrau safonol yn Atodiad 2 yn nogfen canllawiau Llywodraeth Cymru.
- Efallai mai ychydig iawn o newid fydd o'r gofynion Silwair, Slyri a Thanwydd Olew Amaethyddol (SSAFO) presennol gan ddibynnu ar y dull a ddefnyddir i gyfrifo eich anghenion storio, yn amodol ar eich gallu i fodloni gofynion eraill y rheoliadau i beidio â chwalu pan fydd risg sylweddol o lygru.
- Rhaid i'r storfa hefyd fod â gofod storio i storio unrhyw law sy'n mynd i mewn i'r storfa (naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) yn ystod y cyfnod storio.
- Mae data am gyfartaledd glawiad (1 Hydref i 1 Mawrth) ar gael trwy borth MapDataCymru Llywodraeth Cymru ar sail cyfartaledd y cyfnod 1981 – 2010 gan y Swyddfa Dywydd.
- Rhaid i'ch cyfrifiad storio gael ei ddiweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r daliad, fel cynnydd yn nifer y da byw, i sicrhau bod gennych ddigon o le i storio.

Hysbysiad adeiladu

- Os bydd arnoch angen adeiladu storfa newydd, neu ehangu neu ailadeiladu storfa sy'n bodoli yn sylweddol, rhaid rhoi lleiafswm o 14 diwrnod o *rybudd* i Gyfoeth Naturiol Cymru yn ysgrifenedig cyn dechrau'r gwaith adeiladu.
- Bydd cynllunio yn gynnar yn rhoi mwy o amser i chi ddynodi os oes arnoch angen gweithredu, cael cyngor a, phan fydd hynny'n angenrheidiol, cael caniatâd cynllunio.

Gellir gweld canllawiau manwl yn llyw.cymru/rheoli-tir

Taflen Wybodaeth – Cynlluniau Rheoli Maetholion

O 1 Awst 2023, cyn chwalu gwrtaith bydd angen Cynllun Rheoli Maetholion i fodloni gofynion Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

Mae Cynllun Rheoli Maetholion yn adnodd pwysig wrth reoli chwalu gwrtaith i dyfu cynydau yn effeithlon ac i leihau risg o lygredd.

Cyfyngiadau uchafswm o nitrogen yn ôl y math o gnwd

- Rhaid i gyfanswm y nitrogen o dail organig a gwrtaith a weithgynhyrchwyd a roddir i gnwd beidio â mynd dros y cyfyngiadau cnwd a nodir yn y rheoliadau, o ystyried y cyflenwad o nitrogen yn y pridd.

Cyfyngiadau nitrogen ar gyfer chwalu tail

- Ar draws y daliad i gyd, rhaid i chi beidio â mynd dros gyfyngiad o 170kg o nitrogen i bob hectar o'r holl dail da byw, gan gynnwys tail sy'n cael ei roi yn uniongyrchol gan yr anifail neu trwy chwalu mewn unrhyw flwyddyn galendr (yn dechrau 1 Ionawr).
- Gweithredir cyfyngiad o 250kg i bob hectar o ran chwalu tail organig am unrhyw gyfnod o 12 mis parhaol.

Ystyriaethau eraill

- Gall chwalu tail a gynlluniwyd effeithio ar eich gofynion o ran storio tail neu slyri.
- Bydd angen i chi ystyried y nodweddion a nodir yn eich map risg a sut y mae'n effeithio ar y tir sydd ar gael i chi ar gyfer chwalu tail organig.
- Gallech ystyried allgludo unrhyw dail sydd dros ben o'ch daliad, neu fewngludo tail ychwanegol os ydych wedi dynodi unrhyw ddiffygion o ran maetholion. Rhaid cofnodi mewngludo ac allgludo tail.

Cynllunio rheoli maetholion

- Mae Canllawiau ar gyfer Ffermwyr a Rheolwyr Tir Llywodraeth Cymru yn darparu templedi ar gyfer Cynlluniau Rheoli Maetholion, gallwch gadw eich cofnodion eich hun ar yr amod bod meini prawf y rheoliadau yn cael eu bodloni, gan wneud unrhyw ychwanegiadau neu addasiadau yn ôl y gofyn.
- Rhaid i gopiâu o Gynlluniau Rheoli Maetholion gael eu cadw am leiafswm o 5 mlynedd a rhaid iddynt fod ar gael i'w harchwilio os gofynnir amdanynt.
- Rhoddir eithriadau rhag rhai gofynion cynllunio rheoli maetholion i ffermydd lle mae'r mewnbwn maetholion yn isel.

Gellir gweld Canllawiau ar gyfer Ffermwyr a Rheolwyr Tir Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/rheoli-tir

Taflen Wybodaeth – Mapiau Risg

Mae'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol (Cymru) 2021 yn gofyn i bob fferm gadw map risg, i helpu i atal digwyddiadau llygru. Rhaid i chi gadw map risg o'ch daliad o 1 Ionawr 2023.

Rhaid i'r map risg ddangos:

- pob cae, gyda'i faint mewn hectarau;
- yr holl ddŵr arwyneb;
- unrhyw dyllau turio, ffynhonnau neu ffrydiau ar y *daliad* neu o fewn 50 metr i derfynau'r *daliad*;
- ardaloedd gyda *phriddoedd* tywodlyd neu *fas*;
- tir â llethr o fwy na 12° (sy'n cyfateb i 20% neu 1 mewn 5);
- tir o fewn 10 metr o ddŵr arwyneb;
- tir o fewn 50 metr o dwll turio, ffynnon neu ffrwd;
- draeniau tir (heblaw pibellau anhydraidd wedi eu selio);
- safleoedd addas ar gyfer tomenni dros dro ar gaeau, os yw'r dull hwn o storio tail yn mynd i gael ei ddefnyddio; a
- *thir sydd â risg isel y bydd dŵr yn llifo oddi arno*, os bydd tir o'r fath yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r gofynion storio *slyri*.

Beth all y map risg ei ddangos hefyd (dewisol)

Gall y map risg hefyd gael ei ddefnyddio i ddynodi nodweddion lle na fyddai'n addas chwalu tail organig, ond nad yw'n un o ofynion y rheoliadau gan gynnwys:

- unrhyw ardaloedd lle na fyddwch yn cael *chwalu* am resymau fel cytundeb tenantiaeth, neu ddynodiad (e.e. Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig);
- ardaloedd sydd wedi eu dosbarthu fel "cynefin bywyd gwyllt" dan gytundeb amaeth-amgylcheddol (e.e. Glastir), ac unrhyw ardaloedd eraill lle mae cytundeb yn gwahardd *chwalu* (e.e. tir mewnbwn isel);
- ardaloedd lle mae'r arwyneb yn greigiog neu anwastad fel na all offer gael ei ddefnyddio yn effeithiol neu yn ddiogel;
- caeau neu rannau o gaeau sydd wedi eu draenio gyda phibelli, eu twrch-ddraenio neu bod pridd wedi ei godi dros ddraeniau yn ystod y 12 mis diwethaf;
- ardaloedd o goetir neu berllannau.

Diweddarau a chadw cofnodion o'ch map risg

Rhaid i chi ddiweddarau'r map risg gydag unrhyw newidiadau a rhaid i chi gadw copïau o'ch map risg, am leiafswm o 5 mlynedd.

Gellir gweld cyfarwyddyd manwl ar sut y gallwch greu eich map risg yn llyw.cymru/rheoli-tir



Mae rhaglen ddatblygiad personol arloesol a blaengar Cyswilt Ffermio yn ôl!
Eleni, bydd 24 o wynebau newydd yn ymuno â rhestr y rhaglen o dros 260 o raddedigion.

Yn cyflwyno dosbarth **Rhaglen yr Ifanc 2021**



*Anwen Hardwick
Gwystre*



*Charlie Baldwin
Lower Chapel*



*Tudur Evans
Llangadfan*



*Lottie Wilson
Cas-lai*



*Hefin Owen
Carmel*



*Llyr Thomas
Caio*



*Holy Page
Pentre*



*Dylan Nutting
Aberhafesp*



*Lea Davies
Bwlch-y-ffridd*



*Aled Davies
Nantglyn*



*Rhys Griffiths
Porthyrhyd*



Yn cyflwyno dosbarth **Rhaglen Busnes ac Arloesedd 2021**



*Angharad Thomas
Dryslwyn*



*Bryn Perry
Welsh Hook*



*Beth Davies
Lawrenny*



*Hari Roberts
Llanefydd*



*Fiona Hunt
Hardwick*



*Ifan Owen
Llanddoged*



*Iwan George
Eglwysrwr*



*Ellie Bevan
Chirbury*



*Sean Jeffreys
Ffairfach*



*Scott Robinson
Parc-y-Bryn*



*Marged Gruffudd
Llanarth*



*Ernie Richards
Clyro*



*Owain John
Maesybont*

Dewch i ddysgu rhagor am yr unigolyn tu ôl i'r wên!
Darllenwch eu bywgraffiadau ar dudalen yr Academi Amaeth
ar wefan Cyswllt Ffermio llyw.cymru/cyswlltffermio

Ymgeisiwch nawr ar gyfer cyllid sgiliau Cyswllt Ffermio i...

...ddatblygu eich sgiliau, datblygu eich busnes
...cynllunio ar gyfer y dyfodol

Mae'r cyfnod ymgeisio am gyllid sgiliau ar agor rhwng
6 Medi 2021 - 29 Hydref 2021



- Mae cymhorthdal o hyd at **80%** ar gael ar gyfer cyrsiau hyfforddiant i unigolion sydd wedi cofrestru
- Mae mwy na **70 o gyrsiau** ar gael, dan gategoriâu 'Busnes', 'Tir' a 'Da Byw'
- Rhwydwaith o **ddarparwyr hyfforddiant cymeradwy** wedi'u lleoli ledled Cymru
 - Un cais i bob cyfnod ymgeisio gan unigolyn cofrestredig
- Uchafswm o ddau gais i bob busnes cofrestredig ym mhob cyfnod ymgeisio
 - Bydd y rhai sy'n gwneud cais am hyfforddiant am y tro cyntaf yn cael eu blaenoriaethu



Am restr lawn o gyrsiau neu am gymorth ar sut i ymgeisio, cysylltwch â'ch swyddog datblygu lleol, Canolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar **08456 000 813** neu ewch i wefan Cyswllt Ffermio.

www.llyw.cymru/cyswlltffermio